

**Pwyllgor Newid Hinsawdd,
yr Amgylchedd a Seilwaith**

**Climate Change, Environment,
and Infrastructure Committee**

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

senedd.cymru/SeneddHinsawdd

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddClimate@senedd.wales

senedd.wales/SeneddClimate

0300 200 6565

6 Hydref 2022

Annwyl Weinidog,

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i ddatgarboneiddio cartrefi sy'n eiddo preifat yng Nghymru ar hyn o bryd. Er mai megis dechrau mae'r ymchwiliad o hyd, un o'r materion sy'n dod i'r amlwg yn y dystiolaeth a gawn yw'r angen (neu fel arall) am strategaeth genedlaethol ar gyfer datgarboneiddio tai.

Rydym yn ymwybodol o'ch ymateb diweddar i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, sef, Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd, sy'n nodi eich bod yn "datblygu strategaeth a chynllun cyflawni cynhwysfawr [ar gyfer datgarboneiddio] sy'n ymgorffori gwaith ar draws deiliadaethau tai."

Yn ystod y cyfarfod ddoe, cawsom dystiolaeth gan amrywiaeth o dystion i lywio ein hymchwiliad, gan gynnwys rhai sy'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru yn y maes polisi hwn. Gofynnwyd iddynt am eu rhan yn natblygiad y strategaeth a'r cynllun cyflawni hyd yma. Dywedasant wrthym nad oeddent yn ymwybodol o gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r naill na'r llall o'r rhain.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth gennych am y strategaeth a'r cynllun cyflawni. Yn benodol, hoffem pe baech yn rhoi sylw i'r cwestiynau a ganlyn.

1. Ar ba gam ydych chi yn natblygiad y strategaeth a'r cynllun?
2. Pa sefydliadau sydd wedi bod yn gysylltiedig â datblygu'r strategaeth a'r cynllun cyflawni hyd yma?
3. A fyddwch yn ymgynghori ar y strategaeth a'r cynllun cyflawni cyn iddynt gael eu cwblhau?
4. Pa amserlen yr ydych yn gweithio tuag ati ar gyfer cyhoeddi'r strategaeth a'r cynllun cyflawni terfynol?



Rydym yn bwriadu defnyddio rhan o'n sesiwn graffu Weinidogol nesaf, a drefnwyd ar gyfer 24 Tachwedd 2022, i'ch holi ynghylch y materion sy'n dod i'r amlwg o'n hymchwiliad.

Edrychaf ymlaen at gael ymateb gennych cyn gynted â phosibl ac erbyn **4 Tachwedd 2022** fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

